



Gwers 11

Pharo



Cyfres Stori Duw

Exodus 5–11



Nod:

Deall na all cynlluniau Duw gael eu gwrthwynebu'n llwyddiannus.

Adnodau:

Exodus 5–11

Cefndir yr hanes:

Eglurwch y sefyllfa. Os cofiwch chi, mae cenedl Israel yn cael ei gorthrymu gan y genedl fwyaf pwerus ar wyneb y ddaear. Maent yn cael eu cadw fel caethweision, a Pharo yw'r llywodraethwr absoliwt arnynt. Mae ef yn unben ac yn gwneud bywydau'r Israeliaid yn annioddefol. Heddiw gwelwn Dduw yn dechrau ar ei gynllun i ryddhau'r Israeliaid o'u caethiwed. Holwch beth mae'r bobl ifanc yn ei gofio am beth yw cynllun Duw? (y 10 pla)

Gweithgaredd:

'Tynnu Rhaff'

Gan ddefnyddio rhaff neu bolyn, gofynnwch i ddau o'r bobl ifanc i gystadlu mewn cystadleuaeth tynnu rhaff, tug 'o' war, yn erbyn ei gilydd. Gwnewch linell ar ganol y llawr rhwng y ddau gan ddefnyddio tâp masgio neu sialc. Dywedwch wrth y ddau gystadleuwr, 'barod', 'cymryd y straen', ac ar y gorchymyn 'ewch' – mae'r ddau i geisio tynnu'r llall ar draws y llinell wen. Y cyntaf i dynnu'r llall ar draws y llinell yw'r enillydd.

Cynhaliwch dwrnament bach, er mwyn

darganfod pwy yw'r person cryfaf yn y dosbarth.

I orffen, gofynnwch i un o'r bobl ifanc lleiaf o ran maint i ddod ymlaen ac esboniwch mai Pharo yw hwn, y person mwyaf pwerus yn yr Aifft – yn wir yn y byd. Yna gofynnwch i enillydd y twrnament ddod i afael yn y pen arall, a dweud wrth y dosbarth y byddant heddiw'n gweld beth sy'n digwydd pan mae Pharo yn mynd benben â Duw.

Cyflwyniad:

Ysgrifennwch y llythrennau, C E C D B A A, ar fwrdd du/gwyn neu ar ddarn o bapur, a holwch beth mae'r llythrennau'n eu cynrychioli. (Creu, Eden, Cwmp, Dilyw, Babel, Abraham, Aifft). Os oes angen cliwiau arnynt yna ychwanegwch ail lythyren pob gair. Mae hon yn ffordd dda o adolygu'r stori fawr mewn ffordd syml.

Darllen yr Adnodau:

Mae'n testun heddiw yn un hir. Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp, gofynnwch iddynt i edrych ar y penodau (Exodus 5–11) gan nodi'r prif ddigwyddiadau. Esboniwch y bydd ganddynt saith – i ddeng munud (yn ddibynnol ar hyd y wers yn eich dosbarth chi) i wneud hyn. Trosolwg sydd eisiau, felly ni raid darllen y darn i gyd. Mae'r penawdau'n cynnwys llawer o'r wybodaeth a gall, edrych yn frysog ar y darn o dan bob pennawd roi'r wybodaeth angenrheidiol.

Gweithgaredd:

Y frwydyr am berchnogaeth pobl Dduw, mae hon yn cael ei dechrau gan beth ddywed Pharo yn 5:2. Gofynnwch i'r bobl ifanc i wneud poster, fel un hysbysebu gornest focsio, o'r enw 'yr ornest fawr'. Gallant wneud llun o Pharo ac efallai cwmwl i gynrychioli Duw, yna gofynnwch iddynt i wneud swigod geiriau ar y ddwy ochr. Gallwch eu cyfeirio at Exodus 3:10, 19–20 a 5:2 ar gyfer y geiriau i lenwi'r swigod geiriau.

Astudiaeth:

Fel rhan o'r astudiaeth gallwn ddilyn patrwm yr ornest fawr;

- 5:4–9 Sut mae Pharo'n ymateb i gais Moses?
- 5:19–21 Sut mae'r Israeliaid yn ymateb?
- 5:22–23 Sut mae Moses yn ymateb?
- 6:1–8 Sut mae Duw yn ateb?

Fe ddywedodd Duw ei fod am ryddhau'r Israeliaid gyda gweithredoedd nerthol. Beth oedd y gweithredoedd nerthol hyn?

Rhowch y dosbarth yn ôl yn y grwpiau y buont yn darllen yr hanes ynddynt. Gofynnwch iddynt fynd drwy eu nodiadau a rhannu pa weithredoedd nerthol gan Dduw y gwnaethant eu cofnodi. Dylent fod wedi cofnodi : gwialen Aaron a'r 10 pla – Gwaed, Llyffaint, Llau, Marw'r anifeiliaid, Cornwydydd, Cenllysg, Locustiaid, Tywyllwch, Marwolaeth y cyntafanedig.

Amser Addoli:

Roedd cyfamod Duw ag Abraham yn cynnwys yr addewid y byddai pob cenedl yn cael ei bendithio drwyddo ef a'i ddisgynyddion, er mai dioddef plau yr oeddent ar hyn o bryd. Mae Duw yn dangos ei hun i'r Eifftwyr, ei bwer, ei nerth, ei gariad at ei bobl, yr Israeliaid. Y tro nesaf fe welwn rai o'r Eifftiaid yn penderfynu gadael eu gwlad ac ymuno â'r Israeliaid.

Soniwch fod pobl heddiw yn aml yn troi at Dduw mewn sefyllfaoedd anodd, neu mewn erchyllterau. Gweddiwch am unrhywbeth sydd wedi bod yn y newyddion yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Fe fydd angen bod yn ofalus ac yn sensitif wrth wneud hyn. Gofynnwch i'r bobl ifanc i weddio am y sefyllfaoedd o'r newyddion – gofyn i Dduw ofalu am y sefyllfa a chysuro'r rhai sy'n dioddef. A gweddio y bydd y rhai sy'n dioddef yn canfod Duw, hyd yn oed mewn sefyllfa mor ofnadwy. Amen